# GRIFFITH, ROBERT (1847 - 1909), awdur Cerdd Dannau

**Enw:** Robert Griffith
**Dyddiad geni:** 1847
**Dyddiad marw:** 1909
**Priod:** Isabella Griffith (née Davies)
**Rhiant:** Jane Griffith
**Rhiant:** John Griffith
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** awdur Cerdd Dannau
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd 1 Mawrth 1847 yn y Glog Ddu, Llangernyw, sir Ddinbych, mab John a Jane Griffith. Yn 1853 symudodd y teulu i fyw i ymyl Llanrwst. Eglwyswr oedd ei dad, a'r fam yn Fethodist. Cafodd ei addysg yn ysgol yr Eglwys, Llanrwst, ac wedi gadael yr ysgol bu'n gwasanaethu yng nghartref ' Glan Collen,' ac yn Eglwys-bach gyda'r Parch. John Rougler. Prentisiodd ei hun yn saer gyda Robert Roberts, Pandy Tudur, a bu'n dilyn ei alwedigaeth yn Llanrwst.

Yn fuan wedi 1870 aeth i Fanceinion i wasanaeth y ' Lancashire and Yorkshire Railway Co. ' fel saer. Yno daeth dan ddylanwad ' Ceiriog,' ' Idris Vychan,' R. J. Derfel, ac eraill, a bu ganddo ran amlwg yn sefydlu ' Cymdeithas Genedlaethol Cymry Manceinion.' Bu'n lletya gydag ' Idris Vychan,' a dysgodd ganddo ganu'r delyn a chanu penillion. Ei gyfraniad gwerthfawr oedd casglu defnyddiau y *Llyfr Cerdd Dannau*, a gyhoeddwyd yn 1913; cafodd gynhorthwy gan ei wraig - Isabella Davies, nith i ' Ap Vychan ' - i gyflawni'r gwaith.

Bu farw 8 Hydref 1909 a chladdwyd ef yn y Southern Cemetery, Manceinion.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


Hunan-gofiant, mewn llawysgrif yn llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor

Adroddiad eglwys Moss Side


## Darllen Pellach


Wyn Thomas, 'Griffith, Robert (1845-1909)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), t.198


## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Robert Griffith, Llyfr Cerdd Dannau: ymchwiliad i hanes hen gerddoriaeth a'r dulliau hynaf o ganu (Caernarfon [1913])

Wikidata: Q20734332


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu